Cynulliad Cenedlaethol Cymru
**Senedd Ymchwil**

# Y Sector Ffermio yng Nghymru
## Briff Ymchwil

Hydref 2018



www.cynulliad.cymru/ymchwil

Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru, i gytuno ar drethi yng Nghymru, ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol: **www.cynulliad.cymru/ymchwil**

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:


**Senedd Ymchwil**
**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
**Tŷ Hywel**
**Bae Caerdydd**
**CF99 1NA**

Ffôn: **0300 200 6317**
E-bost: **Chris.Wiseall@Cynulliad.Cymru**
Twitter: **@SeneddYmchwil**
Blog: **SeneddYmchwil.blog**



**© Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2018**
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.



Cynulliad Cenedlaethol Cymru
**Senedd Ymchwil**


# Y Sector Ffermio yng Nghymru
## Briff Ymchwil


Hydref 2018



**Awduron:**
Chris Wiseall



**Trosolwg o'r papur:**
Mae'r DU a'r llywodraethau datganoledig yn cyhoeddi amrywiaeth o ddata amaethyddol bob blwyddyn, a'r mwyaf cynhwysfawr o'r rhain yw Arolwg Amaethyddol mis Mehefin. Mae'r papur briffio hwn yn tynnu sylw at ymchwil ystadegau amaethyddol allweddol ac yn rhoi trosolwg o strwythur y diwydiant ffermio yng Nghymru. Mae'n cynnig dadansoddiad cymharol o'r diwydiant amaethyddol yng Nghymru a'r sector amaethyddol drwy'r DU gyfan.

# Cynnwys

**Rhagarweiniad** ........ **1**

**Prif Bwyntiau** ........ **2**

**Cyfran cyflogaeth a gwerth ychwanegol gros amaethyddiaeth** ........ **3**

**Incwm ffermydd** ........ **5**

**Defnyddio tir amaethyddol** ........ **6**

**Daliadau fferm** ........ **9**

**Daliadau fferm Cymru yn ôl math** ........ **11**

**Cyfran cynnyrch y sector fesul gwlad** ........ **12**

Da byw ........ 13

Cnydau ........ 16

**Ffynonellau** ........ **17**



# Rhagarweiniad

Mae strwythur y diwydiant amaeth yn amrywio drwy'r DU ac mae amrywiaeth o ffactorau'n effeithio arno, gan gynnwys hinsawdd, tir a thraddodiad. Ucheldir a thirwedd fynyddig sydd gennym yng Nghymru ac mae'r hinsawdd yn wlypach nag ydyw yn llawer o rannau eraill o'r DU. O ganlyniad, mae rhannau helaeth o dir a ddefnyddir yng Nghymru yn cael ei ystyried yn 'ardal lai ffafriol' neu dir ALFf. Mae'r rhan fwyaf o ffermwyr Cymru yn pori da byw, a defaid yn benodol, ar dir ALFf mewn daliadau fferm cymharol fach sy'n cynhyrchu incwm cymharol fach. Ceir strwythur tebyg yn yr Alban a Gogledd Iwerddon, ond mae'r strwythur yn Lloegr yn cael ei nodweddu gan gyfran sylweddol uwch o amaethyddiaeth tir âr ar ddaliadau sydd â maint tir mwy sy'n cynhyrchu incwm sy'n fwy na'r cyfartaledd.

Mae nifer o ffactorau'n effeithio ar batrwm ffermio yng Nghymru:

- Mae cyfran fawr o Gymru wedi'i dosbarthu'n dir ALFf. Felly, mae'n fwy addas defnyddio'r tir i bori a ffermio da byw'n hytrach nag i dyfu cnydau;
- Mae'n fwy addas pori defaid ar yr ucheldiroedd eang, a defaid mynydd Cymreig gwydn yn benodol, ac
- Mae'r diwydiant llaeth a ffermio tir âr yn gyfyngedig i'r ardaloedd mwy cynhyrchiol. Mae'r rhain yn bennaf yn yr ardaloedd iseldir yn y de-ddwyrain, y gogledd-ddwyrain, y rhanbarthau arfordirol ac yn nyffrynnoedd afonydd.

Gan mai cymharol brin yw'r nifer sy'n ffermio'n ddwys, mae'r incwm a gynhyrchir ar ffermydd Cymru yn llai, ar gyfartaledd, na'r hyn a gynhyrchir ar ffermydd o faint tebyg yn Lloegr. Mae Llywodraeth y DU a'r gweinyddiaethau datganoledig yn cyhoeddi amrywiaeth o ystadegau amaethyddol bob blwyddyn. Y mwyaf cynhwysfawr o'r rhain yw Arolwg Amaethyddol mis Mehefin. Mae'r data hyn yn cynnig trosolwg cynhwysfawr o'r diwydiant a thueddiadau penodol yn y sector. Bydd y papur ymchwil hwn yn defnyddio'r ystadegau hyn i ddangos y tueddiadau amaethyddol allweddol yng Nghymru ac i roi trosolwg ar strwythur y diwydiant ffermio. Caffi ystadegau gwahanol wledydd y DU eu cymharu er mwyn dangos y tebygrwydd a'r gwahaniaeth rhyngddynt.

# Prif Bwyntiau

- Yn 2017, defnyddiwyd 85 y cant o arwynebedd tir Cymru fel tir amaethyddol.
- Yn 2017, amaethyddiaeth oedd yn gyfrifol am 3.62 y cant o gyflogaeth rhanbarthol Cymru a 0.59 y cant oedd cyfanswm y gwerth ychwanegol gros yn 2016. Mae'r canrannau hyn yn uwch na chyfartaledd y DU.
- O ystyried y DU gyfan, mae 10 y cant o'r tir amaethyddol yng Nghymru, ynghyd ag 16 y cant o ddaliadau fferm ac 11.5 y cant o'r gweithlu amaethyddol.
- Defnyddir y rhan fwyaf o dir Cymru, sef 76 y cant, fel tir pori, ac mae 80 y cant ohono'n dir ALFf. Mae hyn yn adlewyrchu'r ffaith mai gwlad o ucheldir yw Cymru o ran tirwedd ac mae ganddi hinsawdd wlyb.
- Mae 21 y cant o ddaliadau fferm yng Nghymru yn cadw gwartheg ac yn pori defaid, ac mae'r mwyafrif ohonynt ar dir ALFf. Dim ond cyfran fach o ddaliadau sy'n canolbwyntio'n llwyr ar dyfu cnydau.
- Da byw (49 y cant) a chynhyrchion da byw (36 y cant) yw cyfran fawr o gynnyrch y sector yng Nghymru. Mae 29 y cant o ddefaid y DU yng Nghymru ac 11 y cant o wartheg y DU. Mae 60 y cant o wartheg Cymru yn wartheg llaeth.
- Ar gyfartaledd, 48 hectar yw maint daliadau fferm yng Nghymru, sy'n llai na'r daliadau yn Lloegr a'r Alban.
- Ar gyfartaledd, £24,500 oedd incwm busnes ffermydd Cymru yn 2016-17 a oedd yn fwy nag ydoedd yng Ngogledd Iwerddon (£22,000) ond yn llai nag ydoedd yn yr Alban (£26,000), Lloegr (£38,000) a chyfartaledd y DU (£33,000).




**Y Sector Ffermio yng Nghymru:** Briff Ymchwil

# Cyfran cyflogaeth a gwerth ychwanegol gros amaethyddiaeth

Mae ffigur 1 yn dangos y gyfran o'r gwerth ychwanegol gros (GVA), yn ôl prisiau sylfaenol (%) y gellid ei phriodoli i amaethyddiaeth yn 2016 yn y DU a'r gweinyddiaethau datganoledig. Mae GVA yn mesur cyfraniad diwydiant neu sector at yr economi. Cyfraniad amaethyddiaeth at GVA yn y DU gyfan oedd 0.48 y cant yn 2016. Roedd cyfran amaethyddiaeth Cymru o'r GVA yn uwch na chyfartaledd y DU, sef 0.59 y cant, a oedd yn is na chanran yr Alban (0.88 y cant) a Gogledd Iwerddon (1.08 y cant) ond yn uwch na chanran Lloegr (0.42 y cant). Mae'r gwerthoedd hyn yn dangos bod cyfraniad economaidd amaethyddiaeth yng Nghymru yn fwy na'r cyfartaledd cenedlaethol, ac eto'n llai na'r cyfartaledd yng Ngogledd Iwerddon a'r Alban.

Yn 2017, roedd tua 466,200 o bobl yn gweithio yn y sector amaethyddol yn y DU, 11 y cant ohonynt (53,500) yng Nghymru, 65 y cant (301,500) yn Lloegr, 14 y cant (63,500) yn yr Alban a 10 y cant (47,700) yng Ngogledd Iwerddon.


Ffigur 1 - Cyfran gwerth ychwanegol gros amaethyddiaeth yn rhanbarthol ac yn ôl prisiau sylfaenol (%)




**Ffynhonnell**: Amaethyddiaeth yn y DU 2017, Defra

Mae ffigur 2 yn dangos sut roedd amaethyddiaeth yn cyfrannu at gyflogaeth rhanbarthol (%) drwy'r DU gyfan yn 2017, sef 1.48 y cant ar gyfartaledd. Yng Nghymru, roedd cyfran y diwydiant amaethyddol o gyflogaeth ranbarthol yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol, sef 3.62 y cant. Roedd Gogledd Iwerddon (5.84 y cant) a'r Alban (2.53 y cant) hefyd yn uwch na chyfartaledd y DU. Roedd cyfran amaethyddol Lloegr o gyfanswm y gyflogaeth ranbarthol yn is na'r cyfartaledd cenedlaethol sef 1.13 y cant. Felly, mae cyfraniad amaethyddiaeth Cymru at gyflogaeth yng Nghymru yn fwy sylweddol o'i chymharu â'r DU gyfan.

Ffigur 2 - Cyfran cyflogaeth amaethyddiaeth fesul ranbarth (%)




**Ffynhonnell:** Amaethyddiaeth yn y DU 2017, Defra






## Incwm ffermydd

Mae ffigur 3 yn dangos yr incwm busnes fferm (FBI) ar gyfartaledd drwy'r DU yn 2014-15. Mae FBI yn cynrychioli enillion yr holl weithlu di-dâl (ffermwyr, gwŷr a gwragedd, partneriaid) a'r holl gyfalaf a fuddsoddwyd yn y fferm gan gynnwys y tir ac adeiladau'r fferm. Yng Nghymru, £24,500 oedd yr FBI ar gyfartaledd, a oedd yn fwy nag FBI Gogledd Iwerddon (£25,000) ond yn llai nag FBI yr Alban (£26,000), Lloegr (£38,000) a'r DU gyfan (£33,000).

Yn ôl Incwm Fferm yng Nghymru 2016-17, cynyddodd yr FBI cyfartalog yng Nghymru i £24,500 o gymharu â'r flwyddyn flaenorol, sef £22,700. Credwyd bod hyn oherwydd y gostyngiad yng ngwerth y bunt a'r ffaith bod incwm fferm sylfaenol yn cael ei dalu mewn Ewros. Felly, gwelwyd effaith y gyfradd gyfnewid.

Incwm busnes fferm ar gyfartaledd (£miloedd)





**Ffynhonnell:** Amaethyddiaeth yn y DU 2017, Defra Ffermio, Ffeithiau a Ffigurau Cymru, 2018.

# Defnyddio tir amaethyddol

Cyfanswm y tir amaethyddol a ddefnyddiwyd yn y DU oedd 17,476 miliwn hectar yn 2017. Mae 10 y cant o’r tir hwn yng Nghymru (1.758 miliwn hectar; Ffigur 4), o’i gymharu â 52 y cant yn Lloegr, 32 y cant yn yr Alban a 6 y cant yng Ngogledd Iwerddon. Yng Nghymru, defnyddir 85 y cant o’r tir ar gyfer amaethyddiaeth o’i gymharu â 70 y cant yn Lloegr, 70 y cant yn yr Alban a 73 y cant yng Ngogledd Iwerddon.

Glaswelltir a thir pori parhaol yw’r gyfran helaeth o dir amaethyddol yng Nghymru, ac mae’n cyfrif am fwy na 75 y cant (1.332 miliwn hectar) o’r ardal a ddefnyddir (Ffigur 5). 14 y cant o dir Cymru a ddefnyddir fel tir âr (0.246 miliwn hectar) ac mae 10 y cant (0.180 miliwn hectar) yn dir comin. Mae hyn yn debyg i gyfansoddiad yr Alban a Gogledd Iwerddon, er bod cyfran uwch o dir âr yn hytrach na thir comin yng Ngogledd Iwerddon. Yn Lloegr, caiff tir ei ddefnyddio at ddibenion gwahanol iawn, ac mae tua 54 y cant (4.894 miliwn hectar) wedi’i neilltuo ar gyfer tyfu cnydau, mae 41 y cant (3.757 miliwn hectar) yn borfa barhaol ac mae tua 4 y cant (0.399 miliwn hectar) yn dir comin.

Ffigur 4. Tir amaethyddol a ddefnyddir fesul gwlad 2017 (mil hectar)





**Ffynhonnell:** Arolwg Amaethyddol mis Mehefin, DEFRA, cyfres amser blynyddol: 1983 - 2018






Ffigur 5 - Defnyddio tir a thyfu cyndau fesul gwlad 2017 (mil hectar)




**Ffynhonnell:** Arolwg Amaethyddol mis Mehefin, DEFRA, cyfres amser blynyddol: 1983 - 2018

Mae ffigur 6 yn dangos y gyfran o dir amaethyddol a ddynodwyd yn ardal lai ffafriol (ALFf) drwy’r DU. Mae rhanbarth yn ALFf os yw’r amodau cynhyrchu yno’n anoddach e.e. lle mae cyflwr y tir, a’r hinsawdd yn wael a lle mae’r tir yn anodd ei drin. Yng Nghymru, dynodwyd 80 y cant o gyfanswm y tir amaethyddol yn ALFf. Mae cyfran debyg yn yr Alban (84 y cant). Mae hyn yn adlewyrchu’r dirwedd fynyddig a’r nifer fawr o ffermydd mynydd a ffermydd mewn ardaloedd glawog. Ar y llaw arall, dim ond 16 y cant o dir Lloegr sydd wedi’i ddynodi’n ALFf.

Ffigur 6 - Tir a ddynodwyd yn dir ALFf 2018




**Ffynhonnell:** Ffeithiau a Ffigurau Amaethyddol, Llywodraeth yr Alban 2018. Casglwyd o Arolwg Amaethyddol mis Mehefin yr Alban




**Y Sector Ffermio yng Nghymru:** Briff Ymchwil

## Daliadau fferm

Yn ôl Amaethyddiaeth yn y DU 2017, roedd tua 217,000 o ddaliadau fferm yn y DU yn 2017. Mae tua 16 y cant o'r rhain yng Nghymru, 49 y cant yn Lloegr, 24 y cant yn yr Alban ac 11 y cant yng Ngogledd Iwerddon. Yng Nghymru, maint daliad ar gyfartaledd oedd 48 hectar (ffigur 7), a oedd yn llai na daliadau Lloegr (87 hectar) a'r Alban (113 hectar) ond ychydig yn fwy na Gogledd Iwerddon (41 hectar).


Ffigur 7 - Maint daliadau fferm ar gyfartaledd 2018 (Ha)




**Ffynhonnell:** Amaethyddiaeth yn y DU 2017, Defra

Mae ffigur 8 yn rhannu'r daliadau fferm yn bedwar band yn ôl maint. Drwy'r DU mae mwyafrif y daliadau yn llai na 20 hectar o ran maint (Ffigur 8). Mae hyn yn arbennig o wir yng Nghymru a'r Alban lle mae tua 54 y cant (19,000) a 62 y cant (32,000) o ddaliadau'n perthyn i'r band hwn. 40 y cant (10,000) o ddaliadau Gogledd Iwerddon a 40 y cant (42,000) o ddaliadau Lloegr sydd yn y band. Yng Nghymru, mae nifer y daliadau yn y bandiau eraill yn weddol gyfartal. Mae'r sefyllfa'n wahanol iawn yn Lloegr a'r Alban lle mae rhagor o ffermydd 100 hectar neu'n fwy.

Ffigur 8 - Daliadau fferm yn ôl maint 2015 (000'oedd)




**Ffynhonnell:** Amaethyddiaeth yn y DU 2017. DEFRA




**Y Sector Ffermio yng Nghymru:** Briff Ymchwil

# Daliadau fferm Cymru yn ôl math

Mae ffigur 9 yn dangos manylion daliadau fferm Cymru yn ôl math yn 2017. Mae tua 17 y cant (6,548) yn cadw gwartheg ac yn pori defaid ar dir ALFf ac mae 3 y cant arall (1,181) ar dir nad yw'n ALFf, ac mae 4 y cant yn ddaliadau llaeth. Mae hyn yn dangos mai tir pori yw'r rhan fwyaf o dir ALFf, fel y gwelir yn Ffigur 5, a hynny oherwydd topograffi Cymru.

Ar y llaw arall, dim ond 0.8 y cant (292) o ddaliadau sy'n tyfu ŷd, cnydau cyffredinol a chnydau garddwriaethol. Mae hyn yn dangos mai cymharol brin yw'r tir âr, fel y gwelir yn Ffigur 4. Dylid nodi bod yr adroddiadau blaenorol yn manylu ar fân ddaliadau yn ôl eu math amaethyddol, ond nid oedd adroddiad eleni yn gwneud hynny. Gweler nodyn (c) yn Ffigur 9. Mae 36 y cant yn ddaliadau bach iawn (hy prin yw'r gwaith amaethyddol sy'n mynd rhagddo) ac mae 0.4 y cant yn ddaliadau o fath arall (hy glaswellt a phorthiant neu geffylau arbenigol).

Ffigur 9. Daliadau fferm yng Nghymru yn ôl math





**Ffynhonnell:** Arolwg mis Mehefin o Amaethyddiaeth yng Nghymru. Ffermio, Ffeithiau a Ffigurau Cymru, 2018.
(a) Cyfuniadau o gnydau gyda gwahanol fathau o dda byw.
(b) Glaswellt a phorthiant neu geffylau arbenigol
(c) Mae daliadau sydd ag ychydig bach o weithgaredd amaethyddol yn cael eu grwpio gyda'i gilydd waeth beth fo'r math o fferm.
(d) Diddymwyd nifer fawr o ddaliadau segur yn 2014.

# Cyfran cynnyrch y sector fesul gwlad

Mae Ffigur 10 yn dangos cyfran cynnyrch y sector fesul gwlad ar gyfer cnydau, da byw, cynnyrch da byw (hy llaeth ac wyau) a chynhyrchion eraill yn 2017. Da byw a gynhyrchir yn bennaf yng Nghymru, sef 49 y cant o'r holl gynnyrch. Cynnyrch da byw yw 36 y cant ohono a dim ond 6 y cant sy'n gnydau. Mae hyn yn debyg i'r patrwm yng Ngogledd Iwerddon, er nad ydynt ond yn cynhyrchu hanner (4 y cant) yr hyn a gynhyrchir yng Nghymru.

Yn Lloegr mae cyfran y cnydau a gynhyrchir yn y sector yn sylweddol uwch, sef 41 y cant yn 2017, da byw yw 33 y cant o'r cynnyrch a chynhyrchion da byw yw 15 y cant ohono. Yn yr Alban, da byw yw'r rhan fwyaf o'r cynnyrch (42 y cant) ac eto, mae'r gyfran o gnydau a gynhyrchir yno gryn dipyn yn uwch nag ydyw yng Nghymru a Gogledd Iwerddon (33 y cant).

Ffigur 10 - Cyfran cynnyrch y sector fesul gwlad 2017




**Ffynhonnell:** Ffeithiau a Ffigurau Amaethyddol, Llywodraeth yr Alban 2018. Casglwyd o Arolwg Amaethyddol mis Mehefin yr Alban. * - Data Lloegr o 2016 Nodyn: efallai na fydd y cyfansymiau'n gywir gan nad yw pob is-gategori wedi'u cynnwys






## Da byw

Mae Ffigur 11 yn dangos manylion y cynnyrch da byw fesul gwlad yn 2017. Yng Nghymru, y prif dda byw yw gwartheg (53 y cant) a defaid (35 y cant), gyda dofednod yn ganran bach (6 y cant) a moch yn dangos dim allbwn (0 y cant). Yn yr Alban a Gogledd Iwerddon, gwartheg hefyd yw'r rhan fwyaf o'r da byw (52 y cant a 44 y cant yn y drefn honno), ac mae mwy o ddofednod yng Ngogledd Iwerddon (26 y cant) a llai yn yr Alban (5 y cant). Mae moch yn cyfrannu mwy at gyfran y da byw yn Lloegr (15 y cant), yr Alban (7 y cant) a Gogledd Iwerddon (16 y cant) nag y maent yng Nghymru. Mae da byw wedi'i wasgaru'n fwy cyfartal yn Lloegr ac, ar gyfartaledd, mae mwy o ddofednod (33 y cant) o gymharu â gweddill y DU. 24 y cant yw canran y gwartheg a 12 y cant yw canran y defaid.

Ffigur 11 - Dadansoddiad o gynnyrch da byw yn y DU 2017





**Ffynhonnell:** Ffeithiau a Ffigurau Amaethyddol, Llywodraeth yr Alban 2018. Casglwyd o Arolwg Amaethyddol mis Mehefin yr Alban. * - Data Lloegr o 2016 Nodyn: efallai na fydd y cyfansymiau'n gywir gan nad yw pob is-gategori wedi'u cynnwys

Mae ffigurau 12 a 13 yn dadansoddi nifer y gwartheg a'r defaid yn y DU yn 2017, a hynny fesul gwlad. Roedd tua 10,003,000 o wartheg a lloi yn y DU yn 2017, roedd y mwyafrif (54 y cant) ohonynt yn Lloegr. Roedd 11 y cant yng Nghymru, 18 y cant yn yr Alban ac 16 y cant yng Ngogledd Iwerddon. Yng Nghymru a Lloegr, mae'r mwyafrif, 60 y cant, yn wartheg godro, ac mae 55 y cant yn wartheg godro yng Ngogledd Iwerddon hefyd. Yn yr Alban, fodd bynnag, mae'r pwyslais yn bendant ar wartheg eidion lle mae 71 y cant yn wartheg eidion.

Mae tua 34.83 miliwn o ddefaid ac ŵyn yn y DU, 29 y cant ohonynt yng Nghymru, 45 y cant yn Lloegr, 20 y cant yn yr Alban a 6 y cant yng Ngogledd Iwerddon. Mae'r poblogaethau ym mhob rhanbarth wedi'u rhannu mwy neu lai'n gyfartal yn famogiaid magu a defaid eraill ac ŵyn. Mae maint y ddiadell ar gyfartaledd, gan gyfrif y mamogiaid magu'n unig, yn fwy yng Nghymru, lle mae cyfartaledd o 386 o gymharu â 261 yn yr Alban, 200 yn Lloegr a 99 yng Ngogledd Iwerddon.

Ffigur 12 - Cyfanswm y gwartheg a'r lloi 2017 (000'oedd)





**Ffynhonnell:** AHDB UK Yearbook 2018 Cattle, a baratowyd gan Defra, DARDNI, Llywodraeth yr Alban, Llywodraeth Cymru. Ffermio, Ffeithiau a Ffigurau Cymru, 2018.



**Y Sector Ffermio yng Nghymru:** Briff Ymchwil

Ffigur 13 - Nifer y defaid 2017 (000'oedd)





**Ffynhonnell:** AHDB UK Yearbook 2018 Sheep, a baratowyd gan Defra, DARDNI, Llywodraeth yr Alban, Llywodraeth Cymru.

## Cnydau

Mae ffigur 14 yn dadansoddi cnydau yn y DU. Yng Nghymru, mae 50 y cant o'r holl gnydau'n gynnyrch garddwriaethol, fel ffrwythau, llysiau neu flodau, ac mae'r gweddill wedi'u rhannu'n gyfartal rhwng ŷd a thatws. Mae patrwm tebyg i'w weld yng Ngogledd Iwerddon er bod cyfran fwy eto o'r cynnyrch yn y wlad honno'n gynnyrch garddwriaethol (63 y cant). Yn Lloegr a'r Alban, mae ŷd yn cael ei gynhyrchu'n fwy cyffredin (29 y cant a 39 y cant yn y drefn honno) ac maent hefyd yn cynhyrchu cynnyrch garddwriaethol (34 y cant a 30 y cant yn y drefn honno).

Ffigur 14 - Dadansoddiad o gnydau yn y DU 2017




Ffynhonnell: Ffeithiau a Ffigurau Amaethyddol, Llywodraeth yr Alban 2018. Casglwyd o Arolwg Amaethyddol mis Mehefin yr Alban. * - data Lloegr o 2016





# Ffynonellau

**Amaethyddiaeth yn y DU 2017, Defra**

**Strwythur y diwydiant amaethyddol yng Nghymru ac yn y DU ym mis Mehefin, Defra**

**Ffeithiau a Ffigurau Amaethyddol, Llywodraeth yr Alban 2018**

**Arolwg mis Mehefin o Amaethyddiaeth yng Nghymru. Ffermio, Ffeithiau a Ffigurau Cymru, 2018.**

**AHDB UK Yearbook 2018 Cattle**

**AHDB UK Yearbook 2018 Sheep**

**Arolwg Amaethyddiaeth a Garddwriaeth Cymru 2017, Tablau**

**Incwm Ffermio yng Nghymru 2016-17Ffermio, Ffeithiau a Ffigurau Cymru, 2018.**